UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

C3/09

Cylchlythyr Cynrychiolwyr

Annwyl Gynrychiolydd,

Dyma i chi Becyn Cynrychiolwyr cyntaf y flwyddyn. Cofiwch fod UCAC yma i'ch cefnogi yn ystod y flwyddyn i ddod; mae croeso mawr i chi gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiadau neu ofidiau.

Cofion gorau,
Rebecca Williams (Swyddog Polisi) ac *Elaine Edwards* (Ysgrifennydd Cyffredinol)

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- **Rhestr gyfredol o aelodau'ch ysgol/coleg:** Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr petaech chi'n gallu gwirio'r rhestr amgaeedig yn *ofalus iawn* (gan ein bod wedi symud swyddfa a newid cyfrifiaduron yn ystod y flwyddyn) i sicrhau bod y rhestr yn gyflawn ac yn gywir; yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol petai modd i chi ofyn i'r aelodau wirio'u cyfeiriadau. Amgaewn amlen Rhadbost i ddychwelyd y tudalen(nau) wedi'u gwirio.

- **Taflen 'Y Trothwy Perfformiad: Rownd 10, 2009-10':** Dyma fersiwn 2009-10 o'r daflen Trothwy.

- **Taflen 'Rheolau Cyflenwi: Gweithredu Prin Gyflenwi':** Dyma fersiwn newydd sbon o'r daflen hon gyda'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf.

- **Poster 'Rheolau Cyflenwi: Gweithredu Prin Gyflenwi':** Poster i'w arddangos yn ystafell yr athrawon; gyda newidiadau sylweddol yn y trefniadau cyflenwi, hoffem dynnu sylw at y rheolau newydd – bydd y rhain yn siŵr o effeithio ar bawb.

Recriwtio aelodau newydd

Os oes staff newydd yn eich ysgol/coleg a hwythau heb ymaelodi ag undeb, cofiwch gysylltu â'r swyddfa i ofyn am daflenni ymaelodi. Cofiwch hefyd bod y tymor gyntaf o aelodaeth i athro/darlithydd newydd gymhwyso yn rhad ac am ddim, a dim ond £1 y mis am y flwyddyn galendr wedyn. Mae'r telerau hyn yr un fath yn union ar gyfer darpar athrawon/darlithwyr sy'n hyfforddi yn y gweithle.

Gweithredu 'Prin Gyflenwi'

Fel y gwelwch, mae taflen a phoster wedi'u hamgáu sy'n delio gyda'r rheolau newydd ar gyfer cyflenwi. Mae'r newid yn y rheolau'n sylweddol, a disgwyliwn i'r mater godi'i ben mewn ysgolion ar hyd a lled y wlad. Hoffem glywed oddi wrthoch chi sut mae'r newidiadau'n effeithio arnoch chi yn eich ysgol – ydy'r drefn newydd yn ysgafnhau eich llwyth gwaith, neu a yw'n achosi problemau? Anfonwch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth at **elaine@athrawon.com**.

Y Trothwy Perfformiad: angen atgoffa athrawon i wneud cais

Cofiwch atgoffa athrawon sydd wedi cyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa i wneud cais i symud i fyny i'r raddfa gyflogau uwch. Mae athrawon rhan amser ac athrawon cyflenwi hefyd yn gymwys i wneud cais unwaith iddynt gyrraedd pwynt 6. Ar hyn o bryd, nid oes modd i athrawon sy'n gweithio trwy asiantaeth wneud cais.

Mae ffurflen gais (fersiynau Cymraeg a Saesneg) ar gael o:
http://www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/threshold

ac mae taflen gwybodaeth UCAC (Y Trothwy Perfformiad Rownd 10) sydd wedi'i hamgáu, hefyd ar gael o wefan UCAC **www.athrawon.com** (dewiswch: Cyhoeddiadau > Taflenni Gwybodaeth).

Mae'n bryd hefyd i'r athrawon hynny sydd wedi bod ar U1 neu U2 ers dwy flynedd symud i fyny i'r cam nesaf. Os na symudodd yr athrawon hynny ymlaen i'r cam nesaf ym mis Medi, dylent atgoffa'r Pennaeth ei fod yn amserol iddynt symud i fyny'r raddfa. Mae UCAC yn cynghori aelodau i anfon llythyr i atgoffa'r Pennaeth.

Adran Cyhoeddiadau a Chyfathrebu UCAC – angen aelod newydd!

Mae lle yn wag ar Adran Cyhoeddiadau a Chyfathrebu UCAC – ydych chi'n gwybod am rywun fyddai'n hoffi bod yn aelod?

Chwe athro neu ddarlithydd sy'n aelodau o'r Adran, a materion sy'n ymwneud â chyhoeddiadau'r undeb a chyfathrebu mewnol ac allanol sydd dan sylw e.e. cyfarfod cyhoeddus UCAC yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gwefan UCAC ac ati.

Mae'r Adran yn cwrdd unwaith y tymor ym mhrif swyddfa UCAC yn Aberystwyth; mae UCAC yn talu costau teithio'r aelodau, a dylai bod modd i ysgol hawlio'r costau cyflenwi gan yr AALl.

Os oes diddordeb, rhowch wybod cyn gynted â phosib i Ysgrifennydd yr Adran Gyhoeddiadau a Chyfathrebu: **elaine@athrawon.com**.

Pryderon? Cysylltwch â'r Undeb

Mae Swyddogion UCAC yn cwrdd yn gyson â'r Gweinidog Addysg, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, a Swyddogion APADGOS. Felly cofiwch os oes unrhyw fater sy'n peri gofid, pryder, neu ddicter, rhowch wybod, a byddwn yn gallu codi'r mater ar eich rhan.

Tynnir eich sylw at dudalen 26-7 yn y Blwyddlyfr cyfredol sy'n nodi'r amodau o ran cynnig cyngor a chymorth i aelodau. Os bydd aelod yn dod atoch i gael cyngor ac arweiniad ar fater sy'n ymwneud â'i waith, dylech ei gynghori i gysylltu â'r Swyddog Maes perthnasol:

- Swyddog Maes y Gogledd: Eryl Owain | eryl@athrawon.com | 01970 639950
- Swyddog Maes y De: Dilwyn Roberts-Young | dilwyn@athrawon.com | 01970 639950

Pwysleisir na ddylai unrhyw aelod gysylltu â chyfreithiwr heb, yn gyntaf, siarad ag un o Swyddogion UCAC.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com